PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 2 TACHWEDD 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Carter, Magill a/ac Sanders |

35 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

36 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Sanders ynghylch Eitem 5. Datganwyd y Cynghorydd Sanders fuddiant personol gan fod aelod teulu yn derbyn Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cartref.

37 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

38 : DIOGELWCH CYMUNEDOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Daniel De'Ath, Aelod Cabinet dros Ddiogelwch, Sgiliau, Ymgysylltu a Democratiaeth i'r cyfarfod.

Bu'r swyddogion a thystion canlynol hefyd yn bresennol a chroesawon nhw i gyfrannu at y drafodaeth ac i ateb cwestiynau Aelodau:
Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, Stephanie Kendrick- Doyle, Rheolwr Diogelwch y Gymuned, Louise Bassett – Arweinydd Tîm Cyflenwi Partneriaeth, Ellen Curtis (RhG Gwasanaethau Landlord), Will Lane (RhG Gwasanaethau Cymdogaeth (Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir), Carl Davies, Cyd-lynydd Prevent, Uwch-arolygydd Stephen Jones – Heddlu De Cymru, y Prif Arolygydd Daniel Howe – Heddlu De Cymru, David Bents – Gwasanaethau Achub a Thân De Cymru, Conrad Eydmann, Pennaeth Datblygu a Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Angela Stephenson, Rheolwr Cynllunio a Phartneriaeth Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Victoria Harris, Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol dros Gaerdydd a'r Fro, Cwmni Adsefydlu Cymunedol a Mark Brace Assistant South Wales Police & Crime Commissioner.Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu De Cymru.

Esboniodd y Cadeirydd sut byddai'r strwythur cwestiynu'n gweithredu, sef yn yr adrannau canlynol; trefniadau cyfredol, effeithiolrwydd gweithredol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cydlyniad cymunedol a threfniadau'r dyfodol. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Trefniadau Cyfredol ac Effeithiolrwydd Gweithredol

- Gofynnodd yr Aelodau sut mae’r trefniadau Llywodraethu’n wahanol i rai’r gorffennol a goblygiadau’r wahaniaeth hon. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai’r bwrdd rhaglen fwy diogel a chydlynol yw’r prif gerbyd llywodraethu, felly nid oes newid go iawn yn yr hyn sy'n cael ei wneud yno, ac felly nid oes datgysylltiad. Dywedodd tystion iddynt ystyried bod trefniadau wedi gwella, gyda gwaith partneriaeth gwell, awydd i alinio blaenoriaethau trwy'r cynllun Heddlu a Throsedd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Gofynnodd Aelodau a oes unrhyw broblemau gyda dyblygiadau neu unrhyw faterion gyda’r fforymau; a dywedwyd wrthynt fod y fforymau’n wahanol a alluogodd canolbwynt ar faterion strategol a materion lleol hefyd, felly strategaeth a fonitrir ond un sy'n weithredol. Dywedodd y swyddogion fod y dull yn cael ei bontio er mwyn sicrhau cysondeb roedd yn bwysig cymryd yr hyn oedd yn gweithio, cadarnhau dealltwriaeth o werth ychwanegol a'i gweithredu’n rhan o’r trefniant newydd; a oedd ar agor i’r holl bartneriaid.

- Nododd yr Aelodau mai’r Cabinet yw’r prif fecanwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y Cyngor, ac roedden nhw'n bryderus bod hyn yn sefyll y tu allan i hynny a cheision nhw sicrwydd bod y llywodraethu'n gydlynol. Dywedodd y swyddogion mai'r Arweinydd yw cadeirydd y bwrdd a bod y Prif Weithredwr hefyd ar y bwrdd, mae hyn yn rhoi synergedd a’r cyfle i fod yn gwbl aliniedig.

- Gofynnodd Aelodau a yw trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn ddigon cadarn i gadw’r Ddinas yn ddiogel; dywedodd y Swyddogion fod hyn yn brif flaenoriaeth i ddatblygu Caerdydd Fwy Diogel, ni ellid gadael i hyn lithro mewn cyfnod o gyni; mae angen hyder mewn meysydd blaenoriaeth lle bo'n bosibl darparu ac ychwanegu gwerth yn fwy mewn partneriaeth nag yn unigol.

- Nododd Aelodau fod gan y bartneriaeth gyfrifoldebau statudol ynglŷn ag ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau a gofynnon nhw sut y caiff y rhain eu darparu; a dywedwyd wrthynt fod hyn yn cael ei wneud trwy'r Arolwg Holi Caerdydd, mae gan bartneriaid fynediad uniongyrchol at grwpiau cymunedol ac mae ymgynghori a deallusrwydd yn ychwanegu at y data a gesglir. Nodwyd hefyd fod partneriaid wedi cyfrannu trwy’r Strategaeth Beth sy'n Bwysig, trwy ficro-ymgynghoriadau megis Arolwg Compass mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a PACT.

- Gofynnod aelodau beth yw'r gwahaniaeth rhwng adroddiadau amlinellu ac adroddiadau deallusrwydd a nodon nhw y byddai angen data perfformiad cyfansawdd ar y bwrdd. Dywedodd swyddogion fod gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â hyn; mae'r data'n adrodd amrywiaeth eang o weithgaredd troseddol oedd i gyd yn ddefnyddiol ond ddim i gyd yn berthnasol; mae swyddogion yn canolbwyntio ar ganlyniadau a deall y gwahaniaethau sy’n cael eu gwneud mewn partneriaeth na ellid eu gwneud yn unigol ac yn dangos y canlyniadau sy'n dangos ein bod yn gwneud gwahaniaeth.

- Gofynnodd aelodau beth yw’r gwahaniaethau rhwng digwyddiadau a thramgwyddau; a dywedyd wrthynt mai popeth sy’n cael ei adrodd yw digwyddiadau ac mai trosedd a ddeuir o hyd iddo wrth ffynhonnell yw tramgwyddau.

- O ran cam-drin ddomestig, ystyriodd aelodau y byddai o ddefnydd cael gwybodaeth am le caiff troseddau eu cofnodi a faint o'r rhain a arweiniodd at erlyniadau llwyddiannus, byddai hyn yn dangos y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud. Nododd aelodau hefyd y diffyg amlwg o ecsbloetiaeth sy'n cael ei chofnodi a thybion nhw os yw rhywbeth yn cael ei fethu'n gyfunol. Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr holl ddata trosedd ar Drais Domestig sy'n cael ei gofnodi yn cael ei brofi'n gadarn ac y byddai data'n herio craffu. O ran ecsbloetiaeth, mae llawer o waith yn cael ei gomisiynu ar hyn, mae nifer o ymchwiliadau byw ar y gweill ac eir i'r afael â nhw a chaiff deallusrwydd ei ddatblygu.

<u>Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol</u>

- Nododd yr aelodau fod y Cyngor yn cyflawni llawer o rolau gan gynnwys landlord a gofynnon nhw sut mae'r bwrdd yn cyfathrebu gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd â thenantiaid trafferthus.. Esboniodd y swyddogion mai sŵn yw prif elfen ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae gan y Cyngor berthynas agos gyda landlordiaid cymdeithasol; yn aml cysylltir sŵn â phroblemau eraill megis camddefnyddio alcohol felly mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda thimau eraill i fynd i'r afael â'r problemau, gan gynnwys Iechyd gan sicrhau bod cynlluniau gofal â chanolbwynt ar sicrhau bod llety'n cael ei gynnal. Mae fforymau a grwpiau'n trafod adolygiadau achos ac mae hefyd grwpiau datrys problemau y gwahoddir yr Heddlu a landlordiaid cymdeithasol iddynt; ar lefel uwch, mae hefyd cyfarfodydd Ansawdd Bywyd sy'n ystyried iechyd meddwl, caethiwed ac ati.

- Nododd yr aelodau fod gan gymdogaethau faterion gwahanol iawn ac y dangosir y rhain yng Nghynlluniau Gweithredu Partneriaeth Cymdogaeth, ond sut eir i'r afael â materion strategol y ddinas gyfan a sut cedwir y ddinas yn ddiogel, yn enwedig mewn cyfnod o gyni? Esboniodd y swyddogion mai mater thematig yw hwn, mae natur ymddygiad gwrthgymdeithasol yn golygu bod angen ymatebion gwahanol; mae angen ymateb lleol i ddatrys ar lefel cymdogaeth, y mwy y'i harweinir gan y gymuned y gwell. Nododd swyddogion bwysigrwydd cynnwys y gymuned wrth ddatblygu atebion i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Gofynnod aelodau am sut mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys materion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sector rhent preifat a thai y mae'r perchenogion yn byw ynddynt nad yw'n cynnwys tenantiaid tai cymdeithasol. Dywedodd swyddogion fod yr Heddlu yn cymryd y rôl flaen ond bod llai o brotocolau sefydledig yn yr ardaloedd hyn gyda mwy o angen am dystiolaeth ar gyfer gwaharddebion ac ati.

- Gofynnodd aelodau am ddiweddariad ar drigeri cymunedol a dywedwyd wrthynt ei bod yn cael ei gweithredu mewn awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

- Nododd yr aelodau bwysigrwydd cynnwys ysgolion a sefydliadau addysg bellach, gan gynnwys defnyddio cyfleusterau yn ystod gwyliau'r ysgol, a nodon nhw hefyd bwysigrwydd rôl Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion a gwirfoddolwyr ieuenctid o ran agenda Prevent, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

<u>Cydlyniad Cymunedol a Threfniadau'r Dyfodol</u>

- Gan gyfeirio at agenda Prevent, gofynnodd yr aelodau sut mae'r bartneriaeth yn mynd o ran targedau'r Swyddfa Gartref, a dywedwyd wrthynt fod pethau'n heriol ond yn gwella; mae'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru yn ymuno yn bwysig iawn yn strategol; nid yw Caerdydd wedi cael y profiadau Channel fel rhannau eraill o'r DU ond mae gan Gaerdydd 25/30 partner sydd i gyd yn rhan o'r gwaith pan nodir bod unigolyn ar lwybr eithafiaeth; ni chodir tâl am hyn i gyd oni bai bo angen arbenigwyr. Nododd yr aelodau hefyd ran y mosgiau a hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol ar gyfer imams.

- Gofynnodd aelodau am ddiweddariad ar yr Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR) y cyfeirir ato yn adroddiad Cydlyniad Bwrdd Partneriaeth Gydlynol. Esboniodd swyddogion ei fod yn cael ei hwyluso gan yr ardal Cymunedau; yn naturiol nid oed modd rhagweld DHRau, mae achosion newydd yn dod trwyddo a rhoddir arwyddocâd llawn iddynt.

- Gofynnod yr aelodau a oes diffiniad safonol ar gyfer Cydlyniad Cymunedol y mae'r rhaglen waith yn gweithio o dano. Esboniodd swyddogion eu bod yn gweithio o dan ddiffiniad Llywodraeth Cymru. Mae Cynllun Gweithredu gyda 7 prif flaenoriaeth dan hynny; Trosedd Casineb/Masnachu Pobl/Ceiswyr Lloches/Ffoaduriaid a Mudo/Datblygu Polisi/Tensiynau Cymunedol/Sipsi a Theithwyr. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Chynllun Gweithredu Dros Dro Llywodraeth Cymru ers blwyddyn o ganlyniad i'r etholiadau ac maen nhw'n gobeithio am gynlluniau 3 blynedd i fynd yn eu blaenau; mae cynlluniau cyflenwi ar wahân ar gyfer y Fro a Chaerdydd gan eu bod yn profi materion gwahanol.

CYTUNWYD - y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu i'r Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwr a'r swyddogion perthnasol yn ddiolch iddynt am fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar 2 Tachwedd 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 39 : GOFAL CARTREF

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Susan Elsmore - Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant; Tony Young Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Amanda Phillips Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion i'r cyfarfod.

Bu'r tystion canlynol hefyd yn bresennol a chroesawon nhw i gyfrannu at y drafodaeth ac i ateb cwestiynau Aelodau: David Francis – Cyfarwyddwr Rhanbarthol AGGCC, Bernard McDonald – Rheolwr Ardal AGGCC, Caerdydd, John Cushen a Phil Harding, Cardiff & Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro, Kirsty Best – Cyfarwyddwr, Absolute Care a Huw Owens – Cyfarwyddwr, Bluebirds Cardiff South.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac fe'i rhoddodd bwyslais mawr ar y mater a dywedodd mai ansawdd y gofal y mae Caerdydd yn ei ddarparu yw'r prawf hanfodol.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ac esboniodd, gan ystyried cwmpas yr eitem, y byddai'n strwythuro'r cwestiynau fesul y prif feysydd y mae'r pwyllgor am eu harchwilio, sef capasiti, cynaliadwyedd a chynllunio rhag rhaid, ansawdd, cost reoli, a chynlluniau'r dyfodol.

Capasiti, Cynaliadwyedd a Chynllunio Rhag Rhaid

- Nododd yr Aelodau fod AGGCC wedi myfyrio ynghylch nifer o drefniadau ledled Cymru ar sail wahanol ac y byddai'n ddiddorol clywed gan ddarparwyr am y math o ddull sydd wedi bod y fwyaf ffafriol o ran galluogi capasiti; dywedodd darparwr fod capasiti wedi bod yn fater enfawr a'i bod bellach yn bwysig denu pobl i weithio i mewn i'r sector ac i dynnu effeithiolrwydd ar y sector; nodwyd hefyd fod darparwyr wedi edrych ar yr agwedd ddaearyddol, bu rhai o gleientiaid yn anfodlon newid staff, bu enghreifftiau o gwmnïau gwahanol yn ymweld â'i gilydd, byddai angen ailddechrau.

- Nododd aelodau na dderbynnir cynigion ar gyfer pob math o becynnau, nid yw wedi creu'r capasiti a dymunwyd yn y farchnad a thybion nhw a oes ffordd o gywiro hyn. Dywedodd swyddogion eu bod yn edrych am fodel newydd sy'n cynnwys ardaloedd a bod nifer o ddarparwyr sy'n bresennol wedi bod yn rhan o'r fforwm hwnnw; gellir pontio'r bwlch gyda chronfeydd ICF; roedden nhw'n lansio ymgyrch i ddenu gweithwyr i mewn i weithlu Caerdydd; mae gofal cartref wedi bod yn rhan o'r project lleol yn Llanisien felly roedd cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon.

- Gofynnodd aelodau a dderbynnir nad yw'r model cyfredol yn gweithio er iddo swnio'n gadarnhaol ar y dechrau, ac mai sail leol yw'r ffordd ymlaen. Esboniodd swyddogion ei fod wedi cyflawni'r hyn a fwriadwyd megis anfonebu gwasanaethau a thryloywder, ond mae gwelliannau i'w gwneud o hyd. Mae'n ddull hybrid gyda thechnoleg i gaffael ac ymgysylltu'r farchnad mewn ffordd wahanol; mae cysylltiadau gwell yn y sector nawr hefyd.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr ymchwiliad wedi mynd i'r afael â phryderon, mae'n bwysig cadw'r hyn sy'n dda, adeiladu ar gysylltiadau, deall sefyllfaoedd perthnasol. Mae angen profi'r dull lleol, ond nid oes dim byd wedi'i ddiystyru neu'i ystyried ac mae'n amhosibl treialu pob model. Dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig nodi bod y farchnad Gofal Cartref yn fregus yn genedlaethol, nid yw'r matrics wedi cyfrannu at ansefydlogi'r farchnad, y materion yw cost gofal a denu pobl i mewn i'r sector.

  Dywedodd darparwyr eu barn a dywedon nhw nad oes fai ar y matrics, roedd yn system newydd gyda ffyrdd newydd o wneud pethau, mae mân broblemau wedi'u profi ond unwaith yr oeddent wedi dod i'r arfer â'r system roedd yn haws anfonebu gwasanaethau ac ati. Ychwanegon nhw nad yw'r mater yn un sy'n benodol i Gaerdydd ond un sy'n Genedlaethol.

  Dywedodd swyddogion fod y drwydded ar gyfer y matrics/ Adam yn dod i ben ym mis Tachwedd 2018 a bod dewisiadau eraill yn cael eu harchwilio. Mae tîm pontio'n cael ei sefydlu trwy ddefnyddio arian ICF i helpu gyda phwysau'r gaeaf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn fater sy'n effeithio ar Gymru gyfan y mae angen atebion ar ei gyfer.

Dywedodd Mr Francis fod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau wrth graidd y mater, nid oes un ffordd neu ffordd hawdd o fynd i'r afael â'r mater, mae newidiadau sydyn yn effeithio ar y farchnad yn uniongyrchol; mae Caerdydd wedi gwneud y penderfyniad cryf i ddefnyddio system brynu ddynamig, nid yw ofnau wedi'u gwireddu ac mae cysylltiadau da wedi'u creu rhwng darparwyr a chomisiynwyr, roedd hyn y beth da ar gyfer tryloywder a phan fo darparwyr wedi tynnu'n ôl gallen nhw ateb galwadau, contractau oedd 97% o alwadau. O ran pris, Mae ADAM yn golygu nad oes caffael canolog sy'n lleihau prisiau, mae'n galluogi goramser ac adeiladu proffil.

Dywedodd cynrychiolwyr o'r Ffederasiwn Rhieni mewn perthynas â thâl gofalwyr bod perygl o golli sgiliau ac arbenigedd trwy leihad cyson mewn cyflogau, gyda marchnadoedd yn cynnig tâl gwell nid yw staff yn mynd i aros yn hir na fod yn ymrwymedig.

- Gofynnodd aelodau a oes tystiolaeth o unrhyw fentrau rheoli galw i fynd i'r afael â chapasiti a sicrhau y defnyddir capasiti cyfyngedig yn y ffordd fwyaf priodol. Dywedwyd bod cyfraddau o Ofal Cartref yn amrywio o un Cyngor i'r llall a bod Caerdydd wrth y pen uchaf; mae adolygiadau prydlon yn bwysig, gellid lleihau pecynnau pe bai pobl yn derbyn adolygiadau rheolaidd; mae'n anodd cael dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau, mae cyfle ar gyfer contractio creadigol.

- Gofynnodd aelodau pa mor arwyddocaol yw'r dull ail-alluogi o hyd. Esboniodd swyddogion ystadegau rheoli galw ar y pwynt mynediad cyntaf, bod y trothwy mor denau ag y gall fod, mae angen i bobl gael eu cefnogi yn eu cartrefi cyhyd ag sy'n ymarferol a phosibl. Mae ail-alluogi yn rhywbeth y mae swyddogion am ei wella ac ymestyn y cynnig CRT ar gyfer pobl hŷn, nid oes angen pecynnau gofal ar lawer o bobl sy'n mynd trwy CRT.

- Gofynnodd yr aelodau o ran Taliadau Uniongyrchol a oes angen i bobl dalu ychydig i gael y gofal y maen nhw ei angen. Dywedwyd bod camddealltwriaeth o hyd o ran sut gall pobl ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol, er enghraifft gofal dydd/nos a gofal seibiant. Dywedodd darparwyr eu bod yn ymwybodol o gleientiaid nad ydynt yn talu mwy i fodloni'r cyfraddau; mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu blocio'n £11.96 yr awr a gall nifer o wasanaethau gostio hyd at £17.60 yr awr.

- Ystyriodd yr aelodau fod angen ail-ystyried y system, ail-bwyso gyda mwy o ofal nyrsio ac edrych ar ICF a chroes-drosglwyddo rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol; dywedodd yr Aelod Cabinet yr edrychir ar hyn, mae angen ail-fantoli costau ond ni fyddai'n hawdd mynd i'r afael ag ef.

<u>Ansawdd</u>

- Cyfeiriodd yr aelodau at Adolygiadau Blynyddol a dull â chanolbwynt ar ganlyniadau a gofynnon nhw sut caiff ansawdd ei fesur i sicrhau y bodlonir anghenion. Esboniodd swyddogion mai 50/50 yw'r rhaniad rhwng pris ac ansawdd; yn flaenorol mesurir canlyniadau ar ddechrau'r broses maen nhw

bellach wedi symud i gam hwyrach sef y cam adolygu pan wybyddir mwy am anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Cynllun Asesiad/Gofal – mae’r swyddogaeth adolygu wedi newid ac mae bellach yn fwy prydlon.

- Gofynnodd yr aelodau a oes unrhyw alwadau dan 30 munud; dywedodd swyddogion fod canran isel, maen nhw’n monitro galwadau 15 munud yn rheolaidd o bersbectif ansawdd.

- Gofynnodd yr aelodau am sylwadau ar gontractau dim oriau; dywedodd Tystion fod staff yn ffafrio’r rhain, mae ymchwil wedi dangos bod 2% o staff yn unig sydd am gael oriau wedi'u contractio gan eu bod yn hoffi hyblygrwydd contractau dim oriau; 24/7 yw’r swydd ac mae'n rhoi hyblygrwydd i rannu shifftiau cynnar a hwyr yn ogystal â shifftiau yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau.

<u>Rheoli Costau</u>

- Gofynnodd aelodau beth ellid ei wneud i reoli costau; dywedodd swyddogion fod Caerdydd yn talu’n dda o’i chymharu â dinasoedd craidd eraill yng Nghymru a bod proses ar waith i edrych ar gostau pecynnau gofal.

- Cyfeiriodd yr aelodau at y cynnig unigol a gofynnon nhw a yw hyn wedi'i gynnwys yn y prisoedd; esboniodd swyddogion fod darparwyr yn bryderus y byddai'n lleihau costau felly mae angen ceisio cytundeb gan bawb i wneud y newid; mae dal 2 ddarparwr ar ôl; esboniodd swyddogion mai ar gyfer bywyd y pecyn gofal y mae’r gost. Dywedodd tyst eu bod yn hybu cynigion unigol gan ei bod yn stopio anymarferoldeb yn y hirdymor.

<u>Cynlluniau’r Dyfodol</u>

- Gofynnodd yr aelodau, o ystyried y gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd mewn cyllidebau, na ellir cyfaddawdu ansawdd a bod angen darparu'r holl wasanaethau, beth fyddai'r prif flaenoriaethau ar gyfer darparu'r hanfodion. Esboniodd swyddogion fod angen rheoli galw'n briodol a gan na ellir cyfaddawdu ansawdd yna mae angen ffeindio ffyrdd o fod yn fwy effeithlon, felly mae monitro effeithiol yn bwysicaf nag erioed; mae'n bwysig edrych ar fodelau cynaliadwy, sefydlu gweithdai gyda darparwyr, edrych ar ddulliau thematig ac arfer gorau. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod costau Gofal Cartref yn cynyddu a bod cynnig pwysau sylweddol wedi’i gyflwyno. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y boblogaeth sydd mewn angen yn tyfu ac yn fwy cymhleth, bod angen cysylltiadau gwell yn y sector; mae'n fater o ba gymdeithas sy’n barod i dalu am Ofal; mae'r Aelod Cabinet wedi bod yn rhan o drafodaethau ar draws y bwrdd a gwaith gyda CLILC.

  Dywedodd tystion fod gwaith hefyd wedi’i wneud gyda rhieni a gofalwyr heb eu talu; mae'n bwysig edrych ar recriwtio a chadw ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

- Trafododd yr aelodau'r pontio o wasanaethau cymdeithasol Plant i wasanaethau cymdeithasol Oedolion ac esboniodd swyddogion, gyda 8000 o ddefnyddwyr gwasanaeth, nad oedd modd cysylltu’n bersonol gyda phawb, fel sy'n digwydd gyda phlant; mae swyddi gwag yn y gwasanaeth ond nid yw'r holl ymgeiswyr yn bodloni’r ansawdd y mae ei angen. Dywedodd y

Cyfarwyddwr fod £2.4m o arian ICF wedi'i sicrhau yn ddiweddar i helpu gyda phontio o wasanaethau Cymdeithasol Plant i wasanaethau Cymdeithasol Oedolion.

CYTUNWYD - y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu i'r Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwr a’r swyddogion perthnasol yn ddiolch iddynt am fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar 2 Tachwedd 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

40 : CRAFFU AR FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW ADEILADAU CYN Y PENDERFYNIAD

***Aeth y sesiwn i mewn i sesiwn gyfrinachol i drafod gwybodaeth yn Atodiadau 1-2 yr adroddiad hwn na chyhoeddir gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth o’r math a geir ym Mharagraffau 16 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

41 : BUSNES Y PWYLLGOR

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Medi 2015, trafododd yr Aelodau sut hoffent ymdrin ag adroddiadau yn y dyfodol yn ymwneud â busnes y pwyllgor, fel adroddiadau gohebiaeth ac adroddiadau rhaglen gwaith. Penderfynodd yr Aelodau gyfuno’r rhain mewn adroddiad Busnes Pwyllgor cyffredinol.

Rhoddodd yr adroddiad hwn y diweddaraf ar ohebiaeth i’r Pwyllgor. Derbyniodd y Pwyllgor gopïau o ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â materion oedd wedi’u craffu gan y Pwyllgor hwn yn flaenorol. Dywedodd yr Aelodau mai’r ymatebion o’r cyfarfod diwethaf oedd yr unig rai ar ôl.

Nododd yr aelodau y byddai cyfle i fwydo i mewn i’r broses Adolygu Craffu; byddai adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ym mis Ionawr; a fydd yna yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor y Cyfansoddiad a’r Cyngor ym mis Chwefror er mwyn adolygu argymhellion ar gyfer y weinyddiaeth newydd.

Amlinellodd y Prif Swyddog Craffu’r rhaglen waith; nododd Aelodau'r eitem ychwanegol ‘Atal yr hawl i brynu – adroddiad cyn penderfynu’ a phenderfynon nhw anfon brîff ar e-bost i aelodau'r Pwyllgor Craffu.

Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd adroddiad ar gynigion ar gyfer y gyllideb yng nghyfarfod y Cabinet ar 10 Tachwedd 2016; felly, byddai'r wybodaeth hon yn gyhoeddus ar gyfer ymgynghoriad chwe wythnos.

Nododd yr aelodau y pynciau i gael eu hystyried mewn cyfarfodydd i ddod.

PENDERFYNWYD: Nodi Adroddiad Busnes y Pwyllgor.

42 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Disgwylir i gyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Oedolion ddigwydd am 5.00pm 7 Rhagfyr 2016 yn Ystafell Bwyllgor 4 Neuadd y Sir Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 pm